**Cyflwynwyd yr ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol.**

**This response was submitted to the Finance Committee consultation on Fiscal Intergovernmental Relations.**

**FIR_02: Ymateb gan: Cyngor Cymuned Llanllyfni | Response from: Llanllyfni Community Council**

---

Annwyl Bwyllgor Cyllid,

Parthed : Ymgynghoriad : Cysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol

Rydym yn gynyddol brydreus am y modd y mae y strwythurau ariannu rhynglywodraethol yn mynd rhagddynt. Rydym yn ymwybodol iawn fel Cyngor Cymuned am y toriadau sy'n gwynebu ein Cynghorau Sir ac sydd yn effeithio, yn anochel yn y pendraw arnom ninnau fel Cyngor Cymuned, ac mae hyn i gyd oddi fewn i gyd destun argyfwng costau byw.

Yn ogystal mae'n Cyngor Cymuned yn gwasanaethau ardal o amddifaedd luosog. Mae sicrhau llif arian pwrpasol a phriodol o Lundain i Gymru yn gwbl allweddol a chreiddiol er mwyn gwarchod a chynnal ein gwasanaethau ynghyd a chynnal cymdeithas hyfyw.

Rydym yn gwerthfawrogi felly yn fawr yr ymgynghoriad hwn ac yn ddiolchgar i chi fel Pwyllgor am fynd i'r afael á hyn ac am eich gwaith pwysig.

Y canfyddiad yw bod anghysondebau yn y modd y mae arian yn trosglwyddo o Lundain i'r cenhedloedd eraill yn y DU ac mae ansicrywdd dybryd i'w weld o ran gweithdrefnau y sustem bresennol.

Hoffem gefnogi a chymeradwyo unrhyw gamau i graffu ar y drefn a'i diwygio fel bo'r angen, er mwyn sicrhau ffrwd teg o arian i Gymru.

Llawer o ddiolch,

Yn ddiffuant,